CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH
MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB

EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION
AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

# Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant



# Cynllun Strategol ar gyfer Lles 2022-2025


**Mae'r ddogfen yma are gael yn y Saesneg**
**This document is available in English**

# Cynnwys


| Adran | | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad<br>1.1 Diffinio Lles<br>1.2 Modelau Damcaniaethol<br>1.3 Modelau cyflwyno yn RhCT | 3<br>4<br>4<br>5 |
| 2. | Ein Cyd-destun Lleol<br>2.1 Cynllun Corfforaethol y Cyngor<br>2.2 Cynllun Strategol y Gyfarwyddiaeth Addysg ar gyfer 2022-2025 | 10<br>10<br>11 |
| 3. | Y Cyd-destun Cenedlaethol<br>3.1 Fframweithiau Arweiniol a Deddfwriaeth<br>3.2 Dulliau Ysgol Gyfan o Hyrwyddo Lles<br>3.3 Cwricwlwm Newydd i Gymru<br>3.4 Arwain Lles yn Effeithiol<br>3.5 Gweithio Mewn Partneriaeth<br>3.6 Llais y Disgybl | 12<br>12<br>13<br>13<br>15<br>15<br>17 |
| 4. | Hunanarfarnu | 18 |
| 5. | Ein Blaenoriaethau Strategol Ni<br>• **Blaenoriaeth Strategol 1:** Sicrhau Arweinyddiaeth, llywodraethu a dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer lles<br>• **Blaenoriaeth Strategol 2:** Cefnogi lleoliadau addysgol i gyflwyno cwricwlwm trawsnewidiol ar gyfer iechyd a lles<br>• **Blaenoriaeth Strategol 3:** Sicrhau tegwch a chymorth i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd<br>• **Blaenoriaeth Strategol 4:** Gwella lles ein disgyblion a'r gweithlu | 19<br>19<br>20<br>22<br>23 |
| 6. | Sut byddwn ni'n mynd ati i fesur ein llwyddiant ni? | 24 |
| 7. | Casgliad | 25 |
| 8. | Adnoddau | 26 |
| 9 | Atodiadau<br>Atodiad 1: Gwerthuso'r Strategaeth Llesiant ar gyfer 2019-2021 | 27 |

## Adran 1:  Cyflwyniad

Mae’r strategaeth les yma'n amlinellu cynllun yr awdurdod lleol i hyrwyddo lles yn ein hysgolion a’r meysydd gwasanaeth ehangach sy’n eu cefnogi. Mae’r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ac asiantaethau partner yn gweithio’n unigol ac ar y cyd i hyrwyddo lles staff a disgyblion:




Ein nod craidd yw gosod lles unigolion wrth graidd gwella ysgolion, yn unol â’r Fframwaith ar gyfer gwreiddio ymagwedd ysgol gyfan at Les Emosiynol a Meddyliol, cyhoeddwyd Mawrth 2021. Mae lles yn hanfodol bwysig, mae'n effeithio ar iechyd corfforol, gweithrediad gwybyddol, perthnasoedd cymdeithasol ac ymddygiad unigolion ar hyd eu hoes.


Mae'r strategaeth yma'n nodi camau gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Addysg a phartneriaid i sicrhau bod holl blant a phobl ifainc RhCT yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i fyw bywydau iach nawr ac yn y dyfodol. Dylai gwasanaethau weithio gyda'i gilydd i helpu i wella iechyd a lles pob plentyn yn Rhondda Cynon Taf a bydd gweithio mewn partneriaeth yn rhan greiddiol o'r strategaeth hon.

Yn Rhondda Cynon Taf, rydyn ni'n ymdrechu i ddefnyddio ymagwedd gyffredin at les sydd: wedi'i thrwytho mewn seicoleg; yn seiliedig ar hawliau ac yn cael ei harwain gan werthoedd; yn deg, amrywiol a chynhwysol; ac wedi'i gwreiddio mewn datblygiad plant. Y disgwyl yw:

- bydd y strategaeth yn hyrwyddo dulliau effeithiol ar gyfer ysgolion cyfan;
- gwella iechyd a lles dysgwyr yw busnes pawb, nid unigolion yn unig a allai fod wedi cael hyfforddiant penodol; Mae ymyriadau yn rhagweithiol - maen nhw'n defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael i'r ysgol i lywio dewisiadau ac osgoi ymatebion adweithiol.
- Bydd anghenion pob disgybl yn cael eu hystyried, bydd ysgolion yn dadansoddi ac yn ymateb i ddata a gasglwyd mewn perthynas â phob disgybl ond gan ganolbwyntio ar y rhai a allai fod yn agored i niwed.
- Dylai ymyriadau lles fod yn:
    - cydweithredol ac yn cynnwys ymchwil gweithredu
    - wedi'u gwreiddio mewn sylfaen dystiolaeth gref.

## 1.1 Diffinio Lles

Mae seiliau'r cynllun yn aros yr un fath â'r cynllun Rhondda Cynon Taf blaenorol (2019-2022, https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/SchoolsandLearning/AccessandInclusiontoEducation/relateddocs/STRATEGAETHLLESACYMDDYGIAD20192022.pdf) ac yn cyd-fynd â Chynllun Llesiant Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, lle mae lles yn cael ei ddisgrifio yn nhermau asedau a heriau. Y syniad yw, os oes gan unigolyn yr asedau sydd ei angen arno i ymdopi â heriau bywyd, bydd ganddo gydbwysedd ac felly, lles meddyliol da. Serch hynny, os bydd gan unigolyn fwy o heriau nag asedau, bydd yn mynd yn anghytbwys, a bydd ei les yn cael ei effeithio. Gallai heriau bywyd fod yn berthynas wael, esgeulustod, bwlio neu drais yn y cartref. O ran yr hyn a amlinellir fel asedau, gallai'r rhain fod yn berthnasoedd cadarnhaol, addysg, a theulu cefnogol (Cynllun Llesiant Cwm Taf, 2018-2023). (eincwmtaf.cymru)





*Ffigwr 1: Model o les (Dodge ac eraill 2012)**

## 1.2 Modelau Damcaniaethol

Mae nifer o ddamcaniaethau lles wedi'u cynnig mewn ymchwil sy'n cysyniadoli lles. Yn Rhondda Cynon Taf, rydyn ni wedi dewis damcaniaeth PERMA Martin Seligman (2011)**, fel ein model damcaniaethol craidd. Mae'r model yma'n seiliedig ar yr astudiaeth o ffynnu a'r hyn sy'n gwneud bywyd yn dda ac yn gadarnhaol. Mae modelau damcaniaethol eraill yn astudio'r hyn sydd wedi mynd o'i le, tra bod damcaniaeth Seligman yn nodi pethau sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw, yn galluogi unigolion i ffynnu, ac yn ceisio diffinio a meintioli lles. Mae'r ddamcaniaeth yn nodi 5 cydran sy'n cyfrannu at les sy'n cael eu diffinio a'u mesur yn annibynnol i'w gilydd ac sydd â chymhelliant cynhenid (a ddilynir er eu mwyn eu hunain). Mae'r model yma wedi dod yn adnabyddus fel y model PERMA.

*Dodge, R., Daly, AP, Huyton, J., a Sanders, LD (2012). The challenge of defining wellbeing International Journal of Wellbeing, 2 (3), 222- 235

**Seligman, M. E. P. (2011). *Flourish*. Efrog Newydd: Simon a Schuster.





Nododd Seligman hefyd fod optimistiaeth yn hanfodol i feithrin gwytnwch a lles, gan nodi bod pobl sy'n optimistaidd yn fwy tebygol o allu gwrthsefyll digwyddiadau bywyd llawn straen (Carver, Scheier a Segerston, 2010*).

### 1.3 Modelau Cyflwyno yn RhCT

Mae ymagweddau eraill at les yn RhCT ac yn genedlaethol yn cyd-fynd yn dda â'r ddamcaniaeth yma, er enghraifft:


- **Y model Ph Sylfaenol** o ymdopi a gwytnwch (Sacham, M., Lahad, M., ac Ayalon A., 1992) a ddefnyddir gan y garfan Ymateb Ysgogol Hanfodol. Yn sail i'r model mae'r awgrym bod gan bob person bwerau mewnol, neu adnoddau ymdopi, y gellir eu defnyddio mewn sefyllfaoedd sy'n achosi straen. Mae'r ymdrech i oroesi yn dod o reddf iach yn hytrach na phatholegol.




*Carver, SC, Scheier, MF, a Segerstrom, SC (2010). Optimistiaeth. Clinical Psychology Review, 30, 879-889. http://dx.doi.org/10.1016/j.cpr.2010.01.006

** Shacham, M., Lahad, M., ac Ayalon A., (1992). Y model PH Sylfaenol o ymdopi a gwydnwch. Jessica Kingsley Publishers.

- **Model SPICES** (Jenny Mosely https://www.circle-time.co.uk/our-approach/staff-wellbeing/) ar gyfer lles staff. Mae'r model yn annog oedolion i 'ymweld â'u ffynhonnau' yn drosiadol gan ddarparu egni, cydbwysedd a phersbectif. Mae'r 5 ffynnon yn sillfu 'SPICE' (yn Saesneg) - ysbrydol, corfforol, deallusol, creadigol ac emosiynol.





- Mae CARI, yr offeryn llesiant, a ddefnyddir gan Dîm Iechyd Galwedigaethol RhCT, yn nodi'r **model 5 Piler o Les** wrth fesur lles staff (https://www.cariwellbeing.co.uk/). Mae hyn yn cynnwys ffocws ar les meddyliol, corfforol, cymdeithasol ac ariannol.



- Mae'r **pum ffordd at les** a hyrwyddir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg [Prosiect 5 Ffordd at Les - Mind Cwm Taf Morgannwg (ctmmind.org.uk)](ctmmind.org.uk)




- **GIG Cymru - Fframwaith NYTH** Offeryn cynllunio ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw Fframwaith NYTH sy'n ceisio sicrhau dull 'system gyfan' o ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl, lles a chymorth i fabanod, plant, pobl ifainc, rhieni, gwarcheidwaid a'u teuluoedd ehangach ledled Cymru. Fe'i cyd-gynhyrchwyd gan rwydwaith Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP2) ac ystod eang o randdeiliaid. https://cydweithrediad.gig.cymru/rhwydweithiau/rhwydwaith-iechyd-meddwl-cymru/law-yn-llaw-dros-blant-a-phobl-ifanc-2/y-fframwaith-nyth/




• **Mae Ysgolion Gwybodus Trawma** (https://www.traumainformedschools.co.uk/) yn cael eu hategu gan egwyddorion craidd gwybodus trawma sy'n helpu i greu amgylcheddau **iechyd meddwl i bawb. Gall y rhain gynnwys ffocws ar:**





- **Model Adfer wedi Trawma*** Defnyddir gan Wasanaethau Plant RhCT ochr yn ochr â'r dull Ysgolion Gwybodus Trawma. Mae’r Model Adfer wedi Trawma yn fap ffordd i helpu gweithwyr proffesiynol i ofalu am bobl gythryblus a’u harwain tuag at adferiad. Mae'n fodel cyfansawdd sy'n cyfuno damcaniaethau datblygiad plant, ymlyniad, a niwrowyddoniaeth gyda sgiliau ymarferol ymarferwyr. Mae'r model yma'n ddefnyddiol i'w ystyried mewn ymateb i bandemig Covid.

*Skuse, T. a Matthew, J. (2015).The Trauma Recovery Model: Pennu dilyniant o ymyriadau cyfiawnder ieuenctid ar gyfer pobl ifainc ag anghenion cymhleth. Prison Service Journal,220,16-25.Substance Abuse and Mental Health Services Administration (2014).Concept of Trauma and Guidance for a Trauma-InformedApproach.U.S. Department of Health and Human Services. Ar gael yn https://www.nasmhpd.org/sites/default/files/SAMHSA_Concept_of_Trauma_and_Guidance.pdf





Trawma Gwybodus Ysgolion a'r Model Adfer Trawma yn paratoi plant i ddysgu drwy faethu:




• Mae llawer o ddylanwadau ar iechyd a lles dysgwyr, fel polisi'r llywodraeth, dylanwad y cyfryngau, teulu a ffrindiau, a lle maen nhw'n byw a pha ysgol maen nhw'n mynd iddi. Mae'r safbwynt theori ecolegol (Bronfenbrenner 2006*) yn cydnabod bod lles a gwydnwch dysgwyr yn cael eu heffeithio ar nifer o lefelau.

*Bronfenbrenner, U.D., a Morris, PA (2006). The bioecological model of human development. Yn W. Damon (Golygydd y Gyfres) ac RM Lerner (Golygydd y Gyfrol), Handbook of child psychology: Theoretical models of human development (tt. 793–828). Efrog Newydd: Wiley.




Derbynnir yn gyffredinol bod ysgolion mewn sefyllfa dda i ddylanwadu ar iechyd a lles pobl ifainc mewn ffordd gadarnhaol pan maen nhw'n gweithio mewn partneriaeth ag eraill.

O ystyried yr heriau iechyd meddwl cynyddol y mae dysgwyr, ein gweithlu a'n cymdeithas yn eu hwynebu yn gyffredinol, mae'n bwysig bod gan weithwyr addysgol proffesiynol mynediad at wybodaeth ac arferion sy'n seiliedig ar ymchwil, sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cefnogi iechyd meddwl a lles ein plant a'n pobl ifanc yn effeithiol.

# Adran 2: Ein Cyd-destun Lleol

## 2.1 Cynllun Corfforaethol y Cyngor

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2021-24 yn cael ei lywio gan y weledigaeth i Rondda Cynon Taf "fod y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae ynddo, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus."

Ei brif ddiben yw: "**Darparu arweinyddiaeth gref yn y gymuned a chreu amgylchedd lle mae modd i bobl a busnesau fod yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus"**.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi gweledigaeth, blaenoriaethau ac egwyddorion sy'n parhau i gynyddu cyfraniad y Cyngor i'r saith nod llesiant cenedlaethol sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae ymyrraeth gynnar effeithiol a dulliau ataliol yn ganolog i'r Cynllun Corfforaethol fel ein bod ni'n goresgyn y rhwystrau sy'n gysylltiedig yn aml â rheiny dan anfantais, a'n bod ni'n osgoi'r angen i gynnwys gwasanaethau statudol. Mae ffocws clir ar ddarparu'r gefnogaeth gywir ar yr adeg iawn yn hanfodol os ydyn ni am roi'r dechrau a'r cyfleoedd gorau mewn bywyd i'n plant.

## 2.2. Cynllun Strategol y Gyfarwyddiaeth Addysg ar gyfer 2022-2025

Bydd Cynllun Strategol y Gyfarwyddiaeth Addysg ar gyfer 2022-2025 yn adlewyrchu'r blaenoriaethau trosfwaol yma, a bydd y Cynlluniau Corfforaethol, Cynlluniau'r Gyfarwyddiaeth a Chynlluniau'r Gwasanaeth i gyd yn rhedeg ochr yn ochr i sicrhau bod datblygiadau strategol yn alinio.

Yn Gyfarwyddiaeth Addysg, ein pwrpas craidd yw sicrhau bod gan bob disgybl yn Rhondda Cynon Taf fynediad i ysgolion rhagorol a phrofiadau addysgol cadarnhaol a chyfoethog, sy'n eu galluogi nhw i gyflawni'r deilliannau gorau posibl yn unol â'u gallu. Mae'r Cynllun Strategol Addysg yma ar gyfer 2022-2025 yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant am y 3 blynedd nesaf, gan amlinellu ei chenhadaeth, ei gweledigaeth a'i huchelgais ar gyfer ein hysgolion yn Rhondda Cynon Taf.

Ein cenhadaeth yn syml yw: **'Cyflawni tegwch a rhagoriaeth mewn Addysg a sicrhau lles gwell i bawb '.** Mae partneriaethau cadarn wedi cael eu sefydlu rhwng yr awdurdod lleol, lleoliadau nas cynhelir, ysgolion ac unedau atgyfeirio disgyblion trwy gydol y pandemig. Mae'r partneriaethau yma'n gadarn gyda phob un yn rhannu'r un brwdfrydedd a'r un nod sef sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad i brofiadau dysgu ac addysgu o'r ansawdd uchaf, fel bod modd iddyn nhw wneud cynnydd a thyfu i fod yn ddysgwyr gydol oes. Mae'r cynllun yma'n ailddatgan ein hymrwymiad i les ac iechyd meddwl disgyblion a staff, a pha mor bwysig yw hi i sicrhau bod anghenion emosiynol pawb yn cael cymorth priodol.

Byddwn ni'n cyflawni'n cenhadaeth trwy wireddu'n gweledigaeth, sef: **‘Ysbrydoli a bod yn gefn i arweinyddiaeth ac ymarfer proffesiynol rhagorol, fel bod pob disgybl yn Rhondda Cynon Taf yn gwneud cynnydd da ac yn tyfu'n unigolyn uchelgeisiol, galluog, creadigol ac sy'n wybodus yn foesegol’.** Mae arweinyddiaeth ac ymarfer proffesiynol rhagorol yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod ni'n creu diwylliant effeithiol o degwch, rhagoriaeth a disgwyliadauu uchel yn y maes addysg, fel bod modd i ni sicrhau llwyddiant pob ysgol a disgybl ledled y Fwrdeistref Sirol.

Cydnabyddir y ffaith bod y pandemig wedi rhoi pwysau aruthrol ar y system addysg. Mae e wedi effeithio ar iechyd a lles ein disgyblion, ein gweithlu a'n cymunedau. Mae effaith economaidd, cymdeithasol ac emosiynol COVID-19 wedi bod yn fawr, ac rydyn ni wedi gweld twf sylweddol yn nifer y teuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Rydyn ni'n gwybod bod modd i amddifadedd achosi anghydraddoldebau, ac mae rhai teuluoedd wedi wynebu sawl profiad niweidiol, gan gynnwys caledi ariannol, profedigaeth, colled, trawma, iechyd gwael yn feddyliol ac yn gorfforol. Yn RhCT rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig canolbwyntio ar anghenion lles sylfaenol ein poblogaeth ar ôl y pandemig, sef cysylltiad, pwrpas, cyflawniad, a gobaith defnyddio Model Adfer Trawma a'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

## Adran 3: Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae'r strategaeth wedi'i hysgrifennu i ystyried blaenoriaethau ac agendâu cenedlaethol cyfredol, sy'n cynnwys:

### 3.1 Fframweithiau Arweiniol a Deddfwriaeth

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
  https://llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) (1989)
  https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-child

- Deddf ADY (2018)
  https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/contents/enacted/welsh

- Cwricwlwm i Gymru
  https://llyw.cymru/cwricwlwm-gymru

- Fframwaith Estyn
  Ein trefniadau arolygu newydd ar gyfer ysgolion ac Unedau Atgyfeirio Disgyblion | Estyn (llyw.cymru)

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)
  Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (legislation.gov.uk)

- Ysgolion yng Nghymru fel Sefydliadau sy'n Dysgu (SLO) (2018)
  https://llyw.cymru/ysgolion-fel-sefydliadau-syn-dysgu-trosolwg

- Fframwaith ar Sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol (2021)
  https://llyw.cymru/fframwaith-ar-sefydlu-dull-ysgol-gyfan-ar-gyfer-llesiant-emosiynol-meddyliol

- Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru
  Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

- Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant
  https://www.complantcymru.org.uk/cyhoeddiadau/dim-drws-anghywir-dod-a-gwasanaethau-ynghyd-i-ddiwallu-anghenion-plant/

- GIG Cymru NYTH/ fframwaith NYTH
  https://cydweithrediad.gig.cymru/rhwydweithiau/rhwydwaith-iechyd-meddwl-cymru/law-yn-llaw-dros-blant-a-phobl-ifanc-2/y-fframwaith-nyth/

- Canllawiau Cwricwlwm i Gymru a’r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb [Cwricwlwm i Gymru: Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | LLYW.CYMRU]

## 3.2 Dulliau Ysgol Gyfan o Hyrwyddo Lles

Mae'r Fframwaith Statudol ar gyfer Ymgorffori Ymagwedd Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddyliol (2021) sydd wedi'i gyhoeddi yn ddiweddar wedi'i anelu at anghenion disgyblion o oedran mynychu'r ysgol a'r gweithlu sy'n cefnogi eu hanghenion dysgu a lles. Bwriad y Fframwaith Statudol yma yw cefnogi ysgolion, gan gynnwys Unedau Atgyfeirio Disgyblion a lleoliadau addysg i adolygu a hunanwerthuso eu tirwedd a’u cyflawniad o ran lles fel eu bod yn adeiladu ar gryfderau ac yn nodi meysydd i’w gwella.

Mae’r Fframwaith yn cydnabod bod dim modd i ysgolion ddiwallu holl anghenion poblogaeth gymhleth o blant a phobl ifainc ar eu pen eu hunain. Mae’n amlygu rôl cyrff rhanbarthol, byrddau iechyd lleol a darparwyr trydydd sector wrth gefnogi ysgolion i wella iechyd meddwl a lles. Nod y Fframwaith yw cefnogi ac ategu'r Cwricwlwm cenedlaethol newydd ar gyfer Cymru ac yn benodol Maes Iechyd a Lles Dysgu a Phrofiad.

Mae RhCT yn ymdrechu i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cymryd rhan mewn profiadau dysgu cadarnhaol sy'n datblygu'n well iechyd a lles i bawb. Nod y strategaeth yma yw lleihau anghydraddoldebau sy'n arwain at iechyd a deilliannau gwaeth trwy gyfuno addysg iechyd cyffredinol a chymorth wedi'i dargedu.

## 3.3 Cwricwlwm Newydd i Gymru

Bydd y Cwricwlwm i Gymru yn sbardun pwysig i wella iechyd a lles mewn ysgolion. Y ffordd orau o gyflawni’r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles (MDPh) yw drwy ddull ysgol gyfan. Dylai partneriaethau ganolbwyntio ar y plentyn a sicrhau bod dulliau cyfannol yn cael eu mabwysiadu ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc.

Mae elfennau hanfodol Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn cynnwys iechyd a datblygiad corfforol, iechyd meddwl, a lles emosiynol a chymdeithasol. Dylai’r cwricwlwm a gyflwynir a’r dulliau addysgu a dysgu a fabwysiadwyd gefnogi disgyblion i ddeall a gwerthfawrogi sut mae gwahanol gydrannau iechyd a lles yn gysylltiedig â’i gilydd, a sut mae iechyd a lles da yn ganolog i ddysgu llwyddiannus.

Mae ymchwil yn dweud wrthyn ni fod sut rydyn ni'n prosesu ac yn ymateb i'n profiadau yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol. Mae'n amlwg bod datblygu dealltwriaeth disgyblion o iechyd a lles corfforol cadarnhaol yn dod â manteision gydol oes posibl wrth i'n penderfyniadau effeithio ar ansawdd ein bywydau a bywydau pobl eraill. At hynny, mae sut rydyn ni'n ymgysylltu â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydym ni ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.

Dylai hybu iechyd, lles a pherthnasoedd cadarnhaol a datblygu gwybodaeth a sgiliau perthnasol gael eu nodi a’u hategu gan y pedwar diben craidd a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae modd addysgu Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles trwy wersi iechyd

penodol, addysg bersonol a chymdeithasol, economeg y cartref, ac addysg gorfforol. Serch hynny, dylai fod yn gyfrifoldeb ar bob aelod o gymuned yr ysgol i gyflawni'r agenda yma a sicrhau bod iechyd a lles yn cael eu datblygu trwy addysgu sgiliau bywyd a thrwy gefnogi plant a phobl ifainc yn eu datblygiad meddyliol, emosiynol, cymdeithasol a chorfforol. Mae'n bwysig cynnwys dysgu yn yr awyr agored wrth gynllunio gweithgareddau iechyd a lles.

Dylai addysg iechyd a lles ddigwydd ar draws y cwricwlwm trwy ddysgu rhyngddisgyblaethol. Gall hyn alluogi athrawon a disgyblion i wneud cysylltiadau yn eu dysgu trwy archwilio cysylltiadau clir a pherthnasol ar draws meysydd y cwricwlwm. Mae'n bwysig bod dysgu yn ystod y diwrnod ysgol a thu allan iddo yn cael ei gydnabod fel ffordd o annog cyflawniad personol trwy weithio gyda phartneriaid cymunedol lleol.

Dylai pawb fod yn glir ynghylch eu meysydd cyfrifoldeb a'u rolau mewn asesu ar draws addysgu a dysgu. Ym maes iechyd a lles, mae'n rhaid i asesu ystyried ehangder a phwrpas yr ystod eang o ddysgu mae plant a phobl ifainc yn profi. Dylai ganolbwyntio ar wybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau a phriodoleddau plant a phobl ifainc mewn perthynas â gweithgaredd corfforol, gan gynnwys chwaraeon, diet cytbwys, gofal personol a hylendid, cwsg ac amddiffyniad rhag haint ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain. Mae hefyd yn cynnwys dealltwriaeth o ymddygiadau sy'n niweidio iechyd.

Bydd dilyniant mewn sawl agwedd ar iechyd a lles yn dibynnu ar gam datblygiadol disgyblion yn ogystal â'u hamgylchedd cymdeithasol. Mae'n bwysig, felly, bod pob oedolyn sy'n ymwneud ag addysg y disgybl yn cyfrannu at ddarlun cyfannol o'r plentyn neu berson ifanc. Mae canllawiau ar werthuso cynnydd ar gael yn [Iechyd a Lles: Egwyddorion cynnydd - Hwb (llyw.cymru)]. Mae'n bwysig bod plant a phobl ifainc yn cael y cyfleoedd i fyfyrio ar eu dysgu eu hunain a nodi'r camau nesaf. Wrth wneud hynny, dylai fod gan blant a phobl ifainc berthynas gefnogol ag aelod allweddol o staff sy'n eu hadnabod yn dda ac mae modd iddyn nhw siarad gydag ef/hi yn rheolaidd.

Mae sicrhau ansawdd effeithiol yn ganolog i lwyddiant dulliau ysgol gyfan o hybu iechyd a lles. Dylai uwch dimau arweinyddiaeth ysgolion arfarnu effeithiolrwydd eu cynlluniau strategol fel rhan o welliannau ehangach i'w hysgolion i sicrhau ei fod yn bodloni eu gofynion. Dylen nhw gynnwys disgyblion a staff yr ysgol yn y gwerthusiad. Ni ddylid ystyried disgyblion fel derbynwyr goddefol o ymagweddau ysgol gyfan at iechyd a lles ond fel cyfranwyr gwerthfawr at ddatblygu a gweithredu'r dulliau strategol a fabwysiadwyd.

Mae sicrhau ansawdd yn hanfodol i welliant parhaus mewn iechyd a lles. Dylai cynllunio gwelliant ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, ochr yn ochr â data iechyd cyhoeddus sydd ar gael, er mwyn datblygu cynlluniau effeithiol sy'n anelu at gyflawni'r deilliannau strategol y cytunwyd arnyn nhw ar gyfer yr ysgol, yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru.

Mae'n bwysig gwerthuso cynnydd ac effaith ar iechyd a lles a nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu trwy ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth a data. Bellach mae'n ofynnol i sefydliadau gynnwys iechyd a lles yn eu cynllun gwella a fydd yn cael ei adolygu gan y gwasanaeth rhanbarthol. Mae modd cofnodi cryfderau a meysydd i'w datblygu a'r effaith ar ddisgyblion hefyd drwy ddefnyddio canllawiau'r Awdurdod Lleol a phecynnau cymorth y Bwrdd Iechyd Lleol yn cefnogi'r ymagwedd ysgol gyfan at les gan alluogi dangos

effaith mewn iechyd a lles. Mae modd ei ddefnyddio hefyd fel cyfrwng i drafod mewn ysgolion a chyda chynrychiolwyr yr awdurdod yn rhan o broses fonitro'r awdurdod. Disgwylir i sefydliadau ddefnyddio'r broses hunanarfarnu, gan gynnwys ystyried data lleol, i sicrhau gwelliant parhaus.

## 3.4 Arwain Lles yn Effeithiol

Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff ysgol a disgyblion yn ganolog i sicrhau ymagwedd ysgol gyfan at les emosiynol a meddyliol ac i greu diwylliant ac ethos cadarnhaol mewn ysgol. Yn aml, gall y gweithredoedd a’r ystumiau bach bob dydd y mae athrawon yn eu gwneud fod â deilliannau rhyfeddol o bellgyrhaeddol ar gyfer lles disgyblion gan wneud i ddisgyblion deimlo’n aelodau gwerthfawr o gymuned eu hysgol.

Er mwyn gwella iechyd a lles, mae angen arweinyddiaeth gydweithredol gref sy'n ystyried anghenion iechyd lleol, yn hyrwyddo blaenoriaethau iechyd cenedlaethol a lleol ac yn sefydlu gweledigaeth a rennir. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr:

- Gwneud cysylltiadau clir rhwng polisi ac arfer er mwyn sicrhau gwelliannau.
- Gweithio’n strategol i ymgysylltu ac ysbrydoli eraill i fwrw ymlaen â phob agwedd ar iechyd a lles mewn perthynas â chanllawiau cenedlaethol ac awdurdodau lleol.
- Cyfleu strategaeth gyffredin yn effeithiol fel ei bod yn cael ei rhannu gyda’r sefydliad cyfan a'i bartneriaid.
- Datblygu systemau i gasglu barn yr holl randdeiliaid ac annog pawb i gymryd rhan mewn gwella iechyd a lles y sefydliad a'r gymuned ehangach.
- Datblygu’r cwmpas ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig ar bob lefel gan gynnwys drwy aelodaeth o bwyllgorau a gweithgorau iechyd a lles.

Hyrwyddir iechyd a lles gan arweinwyr sy’n gofalu am eu hiechyd a’u lles eu hunain, yn modelu agwedd gadarnhaol at newid ac yn annog ac yn cefnogi treialon ac arloesedd sydd wedi’u barnu’n dda. Mae arweinyddiaeth o'r fath yn cefnogi gwell iechyd a lles yn ymhlyg.

## 3.5 Gweithio mewn partneriaeth

Mae gweithio mewn partneriaeth yn disgrifio’r ffordd y mae gwasanaethau, grwpiau a’r gymuned yn cydweithio i sicrhau gwelliannau i ddisgyblion, eu teuluoedd a’r ardal leol.

Mae gan rieni a gwarcheidwaid rôl allweddol wrth gefnogi a chynllunio ar gyfer dysgu a bydd adeiladu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni yn sicrhau bod plant a phobl ifainc yn cael gwell cyfleoedd i gefnogi a diwallu eu hanghenion penodol.

Prif nodau gweithio mewn partneriaeth yw meithrin gallu cymunedol a hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol, cynhwysiant cymdeithasol, adfywio a datblygiad economaidd.

Mae Gwasanaethau Addysg ac ysgolion yn gweithio gyda sefydliadau trydydd sector ac ystod o bartneriaid eraill i greu cyfleoedd a llwybrau i blant a phobl ifainc symud ymlaen i gyrchfannau cadarnhaol. Mae'r gwaith yma'n cysylltu'n uniongyrchol â lleihau anghydraddoldebau trwy ddatblygu a chefnogi cyflawniad a sgiliau gwaith a chyfleoedd i gael gwaith.

Mae gweithio mewn partneriaeth hefyd yn galluogi ehangu'r cwricwlwm iechyd a lles i'r gymuned, gan wneud defnydd da o adnoddau a chyfleusterau lleol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu gweithgaredd corfforol a chwaraeon, er enghraifft mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru | Chwaraeon Cymru, Cyrff Llywodraethol Cenedlaethol a chlybiau a grwpiau cymunedol. Ein Rhaglen Chwaraeon Cymunedol yw darparu ystod o gyfleoedd i bob oedran a gallu, ledled Rhondda Cynon Taf.

Mae Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach (Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)) yn chwarae rhan bwysig yn hyrwyddo iechyd pawb sy'n gysylltiedig ag ysgolion a'r nod yw addysgu dysgwyr i fyw bywydau iach. Mae hefyd yn grymuso pob aelod o gymuned yr ysgol i gymryd rheolaeth dros agweddau o amgylcheddau'r ysgol sy'n gallu effeithio ar eu hiechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol a'u lles.

Mae'r Gwasanaethau Addysg hefyd yn gweithio'n agos gydag ystod o bartneriaid i sicrhau bod pob sefydliad addysgol yn gwella iechyd ac yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles dysgwyr a'r gweithlu addysg. Nod ein rhaglen fuddsoddi ysgolion uchelgeisiol yr 21ain ganrif a rhaglen gyfalaf y Cyngor yw creu ysgolion a chyfleusterau chwaraeon sy'n gwella iechyd a lles meddyliol a chorfforol.

Mae Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Iechyd Ysgolion yn darparu gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth meddygol arbenigol. Mae ysgolion a meithrinfeydd hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â GIG Cymru i sicrhau bod deddfwriaeth genedlaethol ar iechyd y cyhoedd yn cael ei gweithredu. Mae'r gwaith yma'n cynnwys cymryd rhan weithredol mewn rhaglenni sgrinio iechyd plant cenedlaethol, imiwneiddio a brechu.


Dylai gweithio mewn partneriaeth anelu at atgyfnerthu ac ategu datblygiad y Cwricwlwm i Gymru a sicrhau, trwy gynllunio a chyfathrebu gofalus, bod cyfraniadau gan bartneriaid yn cefnogi cydlyniad a dilyniant disgyblion. Trwy adolygu a gwerthuso blaenorol, dylai partneriaethau ddarparu deunyddiau i ddisgyblion sy'n gyfredol ac yn ffeithiol gywir, ac sy'n briodol i oedran a chyfnod.

Dylai penaethiaid geisio sicrhau bod sgrinio diogelwch priodol wedi'i wneud wrth ymgysylltu â phartneriaid ehangach a bod ganddyn nhw ddealltwriaeth gadarn o werthoedd a hawliau'r Cwricwlwm i Gymru. Dylid adolygu manylion unrhyw raglenni y bwriedir eu darparu cyn eu gweithredu a dylid craffu ar unrhyw werthusiadau blaenorol cyn cyflwyno'r mewnbwn a gynllunnir.

Lle bo'n briodol, dylai'r athro dosbarth neu'r ymarferydd blynyddoedd cynnar fod yn bresennol drwy gydol unrhyw gyfraniad cwricwlwm gan bartner.

## 3.6 Llais y Disgybl

Mae adroddiad Estyn (Estyn, 2019) yn tynnu sylw at y pwysigrwydd y mae staff ac arweinwyr yn ei roi ar wrando ar ddisgyblion yn ogystal â chael systemau ar waith ar gyfer cynrychiolaeth disgyblion. Rydyn ni'n ymdrechu dros blant a phobl ifainc yn RhCT i gyrraedd lefel 8 ar yr ysgol cyfranogiad plant a phobl ifainc isod:




Dylid rhoi'r cyfleoedd ehangaf posibl i blant a phobl ifainc ddatblygu sgiliau arwain yn y sefydliad ac yn y gymuned leol. Bydd y gweithgareddau yma'n eu galluogi i ddatblygu, arddangos a chymhwyso ystod eang o sgiliau ar gyfer dysgu, bywyd a gwaith.

Dylen nhw gael deialog rheolaidd gyda staff am eu dysgu, gan gynnwys cyfleoedd wedi'u cynllunio i arfarnu eu cynnydd eu hunain a nodi'r camau nesaf. Dylid eu cefnogi i gyfrannu eu barn a'u safbwyntiau yn weithredol a dylid ystyried y rhain wrth gynllunio gwelliant.

Er mwyn helpu i hwyluso llais dysgwyr rydym wedi datblygu llwybrau ar gyfer cymryd rhan ar draws gwasanaethau yn Rhondda Cynon Taf. Caiff y rhain eu harchwilio'n ehangach yn Strategaeth Cyfranogiad YEPS 2022-24 a'r Strategaeth Gwasanaethau Addysg ar gyfer Llais Dysgwyr a Theuluoedd sydd wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.

## Adran 4: Hunanarfarnu

Roedd Strategaeth Llesiant ac Ymddygiad Rhondda Cynon Taf 2019-2022 yn pennu cynllun yr awdurdod lleol i hyrwyddo lles ac ymddygiad cadarnhaol yn ein hysgolion. Ceir gwerthusiad o'r strategaeth hon yn Atodiad 1.

Fel rhan o'n hunan-werthuso parhaus, caiff ystod o setiau data eu dadansoddi'n rheolaidd gan gynnwys presenoldeb, gwahardd a data lles (e.e., PERMA). Mae datblygiadau allweddol yn cynnwys:

• mae dealltwriaeth gyffredin o'r fframwaith lles yn parhau i dyfu ar draws ysgolion Rhondda Cynon Taf, gyda mwy o ddefnydd o offer lles ar draws lleoliadau addysgol. Mae hyn yn cynnwys PERMA a'r Proffil Boxall, fel offeryn ar gyfer mesur effaith gwaith ymyrraeth ysgolion;
Mae meysydd gwasanaeth eraill yn cydweithio ac yn defnyddio gwybodaeth i wella eu gwaith. Er enghraifft, mae'r Gwasanaeth Presenoldeb a Lles yn defnyddio PERMA i gefnogi atgyfeiriadau achos agored;
• Cyflwynwyd grŵp cydweithredu a chynllunio partneriaeth aml-asiantaethol yn Rhondda Cynon Taf lle mae partneriaid yn ystyried mynediad effeithlon i ddisgyblion at wasanaethau ac ymyriadau;
• Mae rhannu arferion i gefnogi dull ysgol gyfan o ymdrin â lles yn galluogi gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol, rhwng ysgolion a phartneriaid allanol;
• Datblygu a defnyddio adnoddau yn effeithiol i sicrhau hunan-werthuso cadarn;
• Hyrwyddo effeithiol a datblygu lles staff drwy ddefnyddio CARI;
• Gwella cyfathrebu rhwng ysgolion a theuluoedd drwy ddefnyddio'r swyddogion ymgysylltu teuluol;
• Mae anghenion dysgwyr bregus ar draws Rhondda Cynon Taf yn cael eu diwallu'n fwy effeithiol o ganlyniad i hunan-werthuso a mentrau strategol mwy cadarn ar lefel awdurdod lleol a lefel ysgol gyfan.
• Mae buddsoddiad sylweddol mewn darpariaethau Cam 4 dros gyfnod o 2 flynedd yn dechrau effeithio ar flaenoriaethau ysgol gyfan megis lleihau cyfraddau gwahardd ac agweddau at ddysgu;
• Mae ymgynghori ag asiantaethau allanol, staff ysgolion a dysgwyr ynglŷn â chanfyddiadau ynghylch hiliaeth a hyrwyddo gwrth-hiliaeth mewn ysgolion wedi cael ei gynnal. Mae cynllun wedi ei greu a'i ddatblygu, ac mae adnoddau'r cwricwlwm bellach yn cael ei dreialu.

Er bod cynnydd wedi'i wneud, mae lle i wella ymhellach o hyd fel yr amlinellir yn yr Adran Blaenoriaethau Strategol (Adran 5).

## Adran 5: Ein Blaenoriaethau Strategol ni:

Mae ein blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer 2022 i 2025 yn cael eu llywio gan ein hunanarfarniad, a’n blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 1:** | Sicrhau arweinyddiaeth, llywodraethu a dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer lles. |
| **Blaenoriaeth 2:** | Cefnogi lleoliadau addysgol i gyflwyno cwricwlwm trawsnewidiol ar gyfer iechyd a lles. |
| **Blaenoriaeth 3:** | Sicrhau tegwch a chymorth i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. |
| **Blaenoriaeth 4:** | Gwella lles ein disgyblion a’r gweithlu trwy ddulliau ysgol gyfan effeithiol. |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth Strategol 1:** | Sicrhau arweinyddiaeth, llywodraethu a dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer lles. |

Mae'r flaenoriaeth yma'n canolbwyntio ar ddatblygu gweithlu addysgol sy'n hynod fedrus ac arweinyddiaeth a llywodraethu rhagorol ar bob lefel drwy:

- Sicrhau bod gweithdrefnau llywodraethu ysgolion yn gryf trwy hyfforddiant o ansawdd uchel, cefnogaeth a her o ansawdd uchel mewn perthynas â lles, ymgysylltu a phresenoldeb;
- Sicrhau hunanarfarniad effeithiol a choladu adborth rheolaidd gan randdeiliaid mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles, gan gynnwys llais y disgybl, i lunio cynlluniau gwella strategol ar lefel awdurdod lleol ac ysgol;
- Sefydlu grŵp effeithiol o randdeiliaid i gynorthwyo gyda datblygiadau llesiant strategol;
- Datblygu ein hysgolion ymhellach yn sefydliadau dysgu, mewn partneriaeth â'r CCD, fel modd o wireddu'r Fframwaith Lles Emosiynol a Meddyliol newydd;
- Darparu dysgu proffesiynol rhagorol i staff mewn perthynas ag ymagweddau ysgol gyfan at les;
- Gwella ansawdd addysgeg athrawon ac ymarfer sy'n seiliedig ar ymchwil mewn perthynas â lles;

- Sicrhau bod arweinwyr ysgolion yn datblygu cynlluniau effeithiol i gadw eu cymunedau ysgol yn ddiogel;
- Cefnogi ysgolion i hunanwerthuso yn erbyn y 'Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol' ac i gyflawni cynlluniau strategol effeithiol gyda'r nod o wella lles staff a disgyblion;
- Darparu canllawiau cynhwysfawr i bob arweinydd ysgol a chorff llywodraethu ynghylch disgwyliadau ysgolion mewn perthynas â'r fframwaith Lles Emosiynol a Meddyliol;
- Rhoi arweiniad wedi'i ddiweddaru i ysgolion ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol: a
- Parhau i ddarparu strategaethau cynhwysfawr a gwybodus drwy'r –fforymau lles sefydledig a gynhelir o leiaf unwaith y tymor ar gyfer pob arweinydd lles mewn ysgolion.

| **Blaenoriaeth Strategol 2:** | Cefnogi lleoliadau addysgol i gyflwyno cwricwlwm trawsnewidiol ar gyfer iechyd a lles. |
|---|---|

Mae blaenoriaeth strategol 2 yn canolbwyntio ar gefnogi lleoliadau addysgol i gyflwyno cwricwlwm trawsnewidiol ar gyfer iechyd a lles trwy:

- Sicrhau bod ein gwasanaeth gwella ysgolion a gomisiynwyd yn adlewyrchu ein cyd-destun lleol unigryw ac yn cefnogi ein hysgolion i wella a darparu gwell addysgu a dysgu a dilyniant cadarnhaol i bob disgybl;
- Cryfhau datblygiad system sy'n hunan-wella, cymorth effeithiol ysgol i ysgol a rhannu arfer gorau mewn perthynas â lles;
- Sicrhau bod addysgu a dysgu ym mhob ysgol ac Uned Atgyfeirio Disgyblion yn cael eu gwella a'u halinio â gofynion newydd Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, sy'n canolbwyntio ar hybu gwydnwch;
- Sicrhau bod yr ysgolion sydd â'r anghenion mwyaf yn cael mynediad at gymorth pwrpasol ac effeithiol i gyflwyno'r Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer Iechyd a Lles;
- Er mwyn sicrhau bod y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles o'r cwricwlwm newydd i Gymru yn amlygu pwysigrwydd iechyd meddwl a lles emosiynol a'i gysylltiadau â lles corfforol a gwydnwch yn ein hysgolion. Dylai hyn gynnwys:
    - Dysgu yn yr awyr agored
    - Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb
    - Y gallu i ddisgyblion adnabod, deall a siarad am wahaniaethu a thrais;
- Sicrhau bod plant a phobl ifainc yn datblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau, y galluoedd a'r priodoleddau sydd eu hangen arnynn nhw ar gyfer lles meddyliol, emosiynol, cymdeithasol a chorfforol;
- Sicrhau bod cynllun strategol blynyddoedd cynnar traws-gyfarwyddiaeth gwbl integredig ar gyfer plant 0-7 oed sy'n sicrhau y bydd pob plentyn a theulu yn RhCT

yn cael mynediad amserol at wasanaethau o ansawdd uchel a chymorth ymyrraeth gynnar ac atal drwy gydol y Blynyddoedd Cynnar. Rhieni a gwarcheidwaid yn cymryd rhan weithredol yn natblygiad a dysgu eu plentyn o'r cyfnod cyn-geni hyd at 7 oed;

- Cydweithio effeithiol rhwng Gwasanaethau i Blant, Addysg, Iechyd a phartneriaid ehangach gan gynnal system Blynyddoedd Cynnar gref ar draws y Fwrdeistref Sirol sy'n hwyluso pontio llyfn i bob plentyn rhwng 0 a 7 oed sy'n cael ei ddeall a'i hyrwyddo gan weithlu ehangach sydd wedi'i hyfforddi'n briodol.
- Sicrhau bod lleoliadau blynyddoedd cynnar sydd ddim yn cael eu cynnal a lleoliadau sy'n cael eu cynnal yn gweithio i ddatblygu'r sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol priodol a'r sgiliau rhagofynnol angenrheidiol ar gyfer dysgu a dilyniant;
- Sicrhau bod synergedd rhwng Maes Dysgu a Phrofiad - Iechyd a Lles a'r Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol;
- Cryfhau dulliau sy'n seiliedig ar glwstwr o wella cynllunio'r cwricwlwm a darpariaeth ar gyfer iechyd a lles;
- Archwilio partneriaethau traws-sectorau i ddatblygu'r cwricwlwm newydd gyda'r nod o wella dysgu a lles a buddion iechyd, ffyniant a chyflogaeth tymor hwy;
- Gwella dulliau gwerthuso ar bob lefel i ddeall y cynnydd a wneir gan bob disgybl mewn perthynas ag iechyd a lles;
- Sicrhau bod ysgolion yn olrhain deilliannau mewn perthynas â lles yn effeithiol, ac yn arfarnu strategaethau ac ymyriadau wedi'u targedu'n gadarn;
- Sicrhau bod ysgolion yn cael cymorth sy'n seiliedig ar ymchwil a chymhwyso arfer gorau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn seiliedig ar dystiolaeth i'w lleoliadau eu hunain;
- Sicrhau bod gan ysgolion gyd-ddealltwriaeth o Degwch a Rhagoriaeth mewn Addysg;
- Sicrhau bod gan bob ysgol raglen o weithgareddau cyfoethogi diwylliannol, chwaraeon, creadigol a hamdden i ddysgwyr trwy gydol eu haddysg statudol;
- Sicrhau bod rhieni/cynhalwyr yn cael gwybod am ddiwygiadau allweddol a'u bod yn cael eu cefnogi i wella dysgu eu plentyn; a
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Consortiwm i sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi i ddatblygu cymhwysedd dwyieithog a datblygu sgiliau Cymraeg.

| **Blaenoriaeth Strategol 3:** | Sicrhau cymorth amserol i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd |
|---|---|

Mae blaenoriaeth strategol 3 yn canolbwyntio ar sicrhau'r llwybr dysgu cywir a'r gefnogaeth i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd**.** Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

- Sicrhau bod holl staff yr ysgol wedi cael hyfforddiant proffesiynol priodol ar y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) a'u bod nhw'n gwbl effro i'w dyletswyddau statudol ac egwyddorion ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person;
- Cefnogi ysgolion i hunanwerthuso darpariaeth ADY yn effeithiol a chynllunio'n strategol ar gyfer gwella iechyd meddwl a lles disgyblion;
- Cryfhau gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, y gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a sefydliadau addysg bellach er mwyn sicrhau gwell deilliannau i'r rhai mwyaf agored i niwed a difreintiedig;
- Parhau i wella ansawdd y cymorth wedi'i dargedu ar gyfer gwella lles fel bod deilliannau addysgol pob grŵp sy'n agored i niwed, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sydd ag ADY, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phlant sy'n derbyn gofal yn cael eu gwella;
- Sicrhau bod anghenion lles y rhai sydd wedi cael eu heffeithio gwaethaf gan y pandemig yn cael eu nodi ac yn cael mynediad at gymorth gwell i wneud cynnydd mesuradwy;
- Gweithredu a gwerthuso effeithiolrwydd rhaglenni ac ymyriadau strategol gyda'r nod o oresgyn y rhwystrau i bresenoldeb yn yr ysgol ac ymgysylltu i'r rhai mwyaf difreintiedig ac agored i niwed;
- Gwella deilliannau i blant sy'n derbyn gofal ymhellach trwy dreialu ysgol rithwir ar eu cyfer;
- Sicrhau bod prosesau, gweithdrefnau a darpariaeth addysg gartref ddewisol yn effeithiol wrth ddiwallu anghenion disgyblion;
- Datblygu llwybrau dysgu amgen mwy helaeth ar gyfer pobl ifainc 14-19 oed a gwerthuso effeithiolrwydd datblygu darpariaeth Cam 4 ar draws ysgolion allweddol;
- Cefnogi ymgysylltiad effeithiol â theuluoedd a gweithio mewn partneriaeth ar draws y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, teuluoedd ac ysgolion;
- Mapio gwasanaethau a darpariaeth sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol o fewn ôl troed awdurdod lleol;
- Darparu eglurder ar berthnasoedd a phrotocolau ar y cyd ag asiantaethau eraill, yn enwedig iechyd, gofal cymdeithasol a'r heddlu, a gweithredu fel ffynhonnell cymorth i ysgolion sydd â phryderon a phroblemau gweithredu; a

- Gan gyfeirio at asiantaethau partner allweddol, sicrhau bod adnoddau ariannol ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli'n strategol i gynyddu eu heffaith ar anghenion iechyd meddwl a lles emosiynol disgyblion.

| **Blaenoriaeth Strategol 4:** | Gwella lles ein disgyblion a'r gweithlu. |
| --- | --- |

Mae Blaenoriaeth 4 yn canolbwyntio ar wella lles ein disgyblion a'r gweithlu. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

- Cefnogi ysgolion i hunanwerthuso yn erbyn y ‘Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol’ ac i gyflawni cynlluniau strategol effeithiol gyda’r nod o wella lles staff a disgyblion;
- Datblygu dysgu proffesiynol i gefnogi gweithrediad effeithiol y Fframwaith, mewn partneriaeth â'n gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol;
- Ymestyn ymarfer sy'n deall trawma ar draws pob ysgol, gan gynnwys modelau hyfforddi'r hyfforddwyr;
- Sefydlu hyrwyddwyr lles clwstwr a mentrau ac arferion clwstwr effeithiol;
- Defnyddio ymchwil ar sail tystiolaeth i lywio arfer gorau wrth gefnogi disgyblion agored i niwed ac ymchwil yn seiliedig ar ymholi ac ymyrraeth;
- Ymestyn rolau ymgysylltu â theuluoedd ymhellach ledled y Fwrdeistref Sirol a gwerthuso effaith cyllid ar ddeilliannau;
- Sicrhau bod y continwwm cefnogaeth i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn addas at y diben ac yn sicrhau gwell deilliannau i ddisgyblion;
- Ail-alinio'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles i sicrhau cymorth effeithiol i ysgolion a disgyblion i oresgyn rhwystrau i fynychu'r ysgol ac ymgysylltu;
- Sicrhau bod gwell cymorth lles ar waith i ddisgyblion a staff sydd wedi'i diffinio'n glir ac yn hygyrch (e.e., gwasanaethau cwnsela, cynlluniau mentora);
- Datblygu llwybrau lles integredig i ddisgyblion mewn partneriaeth â Gwasanaethau i Blant, Gwasanaethau i Bobl Ifainc a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifainc (CAMHS);
- Darparu PERMA i bob ysgol a gwerthuso'r effaith;
- Datblygu mesurau cyson a chyfannol o becynnau lles a data;
- Gwrando ar farn plant a phobl ifanc, a staff, gan gynnwys y rheini sydd â phrofiad o fyw ag anghenion iechyd meddwl a lles, a gweithredu arnyn nhw, wrth roi’r dull ar waith;

- Sicrhau bod dulliau sy'n ymwneud â hawliau plant wedi'u hymgorffori ar draws pob ysgol a bod lleisiau disgyblion yn cael gwrandawiad ac yn llywio datblygiadau strategol;
- Hyrwyddo mynediad i glybiau brecwast a phrydau ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys;
- sicrhau bod ysgolion yn cymryd rhan ragweithiol mewn cynlluniau ysgolion iach ac yn mynd ati i hyrwyddo gweithgaredd corfforol a ffyrdd iachus o fyw;
- Hyrwyddo cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan weithredol yn eu cymunedau, trwy gymryd rhan mewn chwaraeon, hamdden a gweithgareddau chwarae;
- Gweithredu strategaeth gwrth-fwlio effeithiol;
- Datblygu ysgolion cymunedol effeithiol, sy'n creu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd a dysgu;
- Datblygu dulliau aml-asiantaeth effeithiol o ddiwallu anghenion lles disgyblion a'u teuluoedd;
- Datblygu dulliau partneriaeth effeithiol o hyrwyddo cydlyniant cymunedol diogelwch; a
- Cefnogi lles staff ar bob lefel a sicrhau llwybrau clir ar gyfer cymorth ar lefel gorfforaethol gan gynnwys Adnoddau Dynol ac Iechyd Galwedigaethol, ynghyd â chysylltiadau â chymorth cenedlaethol.

## Adran 6: Sut byddwn ni'n mynd ati i fesur ein llwyddiant ni?

Mae cynllun cyflawni wedi'i ddatblygu (Atodiad A). Bydd y cynllun yma'n cael ei fonitro bob chwarter er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n effeithiol.

Bydd llwyddiant wrth gyflawni ein blaenoriaethau yn arwain at:

- Arweinyddiaeth gadarn ac ymarfer proffesiynol ar gyfer lles ar draws ein hysgolion gan arwain at well cyrhaeddiad addysgol, presenoldeb, a chyfraddau gwahardd disgyblion, yn enwedig mewn carfannau wedi'u targedu o ddisgyblion difreintiedig ac agored i niwed;
- Dulliau effeithiol o greu ymagwedd ysgol gyfan at les;
- Gwell addysgu a dysgu ar draws ein hysgolion, a chwricwlwm sy'n arloesol ac wedi'i alinio'n gryf â'r meysydd dysgu a phrofiad ar gyfer iechyd a lles;

- Gwell cynllunio strategol a darpariaeth ar gyfer lles ar draws pob ysgol, ysgolion cynhwysol a gwell deilliannau i ddisgyblion;
- Gwell lles meddyliol ac emosiynol staff a disgyblion;
- Rhagor o ddisgyblion a rhieni / gwarcheidwaid yn nodi lefelau uchel o foddhad mewn perthynas â'r addysg sy'n cael ei darparu ar eu cyfer;
- Rhagor o randdeiliaid yn gwerthfawrogi'r cymorth arbenigol mae'r awdurdod lleol yn ei gynnig; a
- Rhagor o bartneriaid yn cymryd rhan weithredol yn y broses o gyflawni ein cynlluniau strategol, gan weithio ar y cyd er budd ein cymunedau.

## Rhan 7: Casgliad

Mae'n hanfodol cynnal ein lles emosiynol a meddyliol, yn enwedig ar ôl yr heriau y mae cymdeithas wedi'u dioddef dros y 2 flynedd ddiwethaf. Ni allai'r un ohonom fod wedi rhagweld sut y byddai COVID-19 yn effeithio ar ein bywydau ac mae hyd yn oed y rhai mwyaf gwydn wedi brwydro ac wedi profi lles gwael ar adegau.

Tra bod y feirws yn parhau i gyflwyno heriau, mae gobaith bod ein bywydau yn dychwelyd i normal yn araf ond yn sicr. Serch hynny, mae tystiolaeth wedi dangos bod yr hyn sy'n cael ei ystyried yn normal yn wahanol ac mae effaith y pandemig yn debygol o aros gyda ni am beth amser. Bydd hyn yn gofyn am weithgarwch â ffocws a gwaith ar les emosiynol a meddyliol a rôl ysgolion wrth gefnogi ac adeiladu lles cadarnhaol.

Rhaid inni weithio mewn partneriaeth i gyflawni ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau a rennir ar gyfer gwella llesiant ar draws y system addysg. Mae strategaeth glir a chydlynol yn ganolog i'r cynnydd hwnnw, ac mae'n cefnogi ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid i ddatblygu dulliau ysgol gyfan cyson a theg i gyflawni hyn. Mae angen mynd i'r afael ag anghenion lles emosiynol a meddyliol pawb plant a phobl ifainc, yn ogystal â staff ysgol, yn rhan o gymuned yr ysgol gyfan. Ni ddylai hyn ymwneud â meddygoli lles ond yn hytrach ystyried y continwwm angen. Yn bennaf mae'n ymwneud ag adeiladu gwytnwch a sicrhau bod camau ataliol yn briodol ac yn amserol. Serch hynny, mae angen hefyd adnabod arwyddion lles gwael pan maen nhw'n codi a sicrhau cefnogaeth effeithiol i ysgolion a'r disgyblion pan fydd disgyblion yn profi trallod mwy difrifol. Mae dysgu effeithiol yn fwyaf tebygol o ddigwydd mewn amgylchedd lle mae pawb yn cymryd rhan.

Does dim modd i ni fod yn sicr pa heriau byddwn ni'n eu hwynebu trwy gydol cyfnod y cynllun yma. Serch hynny, mae modd i ni fod yn hyderus, trwy gydweithio ar draws gwasanaethau, cyfarwyddiaethau, ysgolion ac asiantaethau, y byddwn ni mewn sefyllfa well i wneud gwahaniaeth a chyflawni ein cenhadaeth o gyflawni Tegwch a Rhagoriaeth mewn Addysg a Lles Gwell i Bawb.

## Rhan 8: Adnoddau

| | |
|---|---|
| Lles meddyliol, emosiynol, cymdeithasol, meddyliol a chorfforol | WG42005 (llyw.cymru) |
| Addysg Gorfforol, gweithgaredd corfforol a chwaraeon | Iechyd a Lles: Cyflwyniad - Hwb (llyw.cymru)<br>cr-ld12369-e.pdf (senedd.cymru) |
| Bwyd ac iechyd | https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/bwyta-n-iach-mewn-ysgolion-a-gynhelir-canllawiau-statudol-i-awdurdodau-lleol-a-chyrff-llywodraethu.pdf<br>Iechyd a Lles: Cyflwyniad - Hwb (llyw.cymru) |
| Perthnasoedd, iechyd rhywiol a magu plant | Cwricwlwm i Gymru: Cod Addysg Cydberthnas a Rhywioldeb \| LLYW.CYMRU<br>Iechyd a Lles: Cyflwyniad - Hwb (llyw.cymru) |
| Camddefnyddio sylweddau | Cynllun cyflawni ar gyfer camddefnyddio sylweddau: 2019 i 2022 \| LLYW.CYMRU |
| Cyfrifoldeb pawb | Llesiant Cymru: 2021 \| LLYW.CYMRU |

# Adran 9: Atodiadau

**Atodiad A - Gwerthuso Strategaeth Llesiant 2019-2022**

**Fframwaith Lles Cyson**

Mae offeryn lles PERMA wedi’i wreiddio mewn 95 o ysgolion yn RhCT. Mae holl ysgolion RhCT bellach wedi derbyn hyfforddiant yn y model a fframwaith sylfaenol PERMA yn ogystal â defnyddio'r Offeryn Lles ar-lein. (Gweler y Cynlluniau Lles am ddata gwerthuso). Mae’r fframwaith PERMA yn dechrau cael ei ddefnyddio i danategu rhywfaint o waith y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles. Serch hynny, mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu defnydd cyson o'r model yma ar draws ysgolion/lleoliadau. Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i leoliadau ar y datblygiadau diweddar i'r offeryn PERMA a chynnwys system olrhain hwyliau.

**Adnabod yr angen a'i nodi (Offer Mesur Effeithiol)**

**Canfyddiad Athro/Staff**
Mae hyfforddiant Proffil Boxall wedi'i gyflwyno i bob ysgol yn RhCT ac mae'n ffurfio offeryn mesur canolog a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad. Gwerthuso ac ymwneud â chyflwyno mentrau. Adolygiadau diwedd blwyddyn a gynhelir gan garfanau Cynhwysiant a Mynediad megis y garfan Seicoleg Addysg. Themâu sy'n dod i'r amlwg a nodwyd gan staff lles allweddol megis Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol trwy oruchwyliaeth reolaidd.

**Llais y Disgyblion**
Mae Proffil PERMA yn cael ei ddefnyddio fwyfwy gan ysgolion i fonitro lles disgyblion. Mae defnydd cynyddol o ddulliau PCP hefyd yn gwella data llais disgyblion. Mae plant a phobl ifainc wedi bod yn ymwneud â gwerthuso mentrau gan ddefnyddio holiaduron cyn ac ar ôl y mesurau a grwpiau ffocws.

**Llais yr Athro**
Gwerthuso mentrau a chynlluniau peilot mae athrawon yn cwblhau cyn ac ar ôl y mesurau ac wedi iddyn nhw gymryd rhan mewn grwpiau ffocws/myfyriol i nodi cryfderau, meysydd i'w datblygu, rhwystrau ac atebion. Mae’r wybodaeth yma wedi’i rhannu mewn cyfarfodydd penaethiaid, arweinwyr lles a chyfarfodydd a fforymau Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, lle cynhelir trafodaeth bellach. Mae cyflwyno CARI, sef offeryn lles ar gyfer staff a sesiynau myfyriol i staff hefyd wedi helpu i lywio ein prosesau.

**Data Lles Gwrthrychol**
Mae’r ALl yn parhau i gasglu data lles gwrthrychol drwy’r pecyn data lles. Mae'r pandemig wedi ei gwneud hi'n anodd gwerthuso data tueddiadau mewn ffordd ystyrlon.

**Cydweithredu Amlasiantaeth a Chynllunio mewn Partneriaeth**
Dydy'r cynlluniau Cynllunio ac Arloesi ar y Cyd ddim wedi'u sefydlu'n llawn eto. Cafodd cynnydd ar y rhain ei rwystro oherwydd cyfyngiadau Covid.

**Blaenoriaethau Allweddol yn y Strategaeth Lles 2019-22**

**Blaenoriaeth Strategol 1:** ***Datblygu dulliau strategol a chydweithredol mwy effeithiol i ddiwallu anghenion lles disgyblion, eu teuluoedd a'u hysgolion.***

- Mae hyn wedi'i sefydlu yn unol â'r fframwaith ar gyfer gwreiddio ymagwedd ysgol gyfan at les emosiynol a meddyliol 2021. Mae arweinwyr lles wedi'u sefydlu a grŵp cynllunio strategol wedi'i greu.
- Mae offeryn lles CARI yn cael ei roi ar waith yn RhCT ac mae wedi cael ei rannu â staff canolog. Mae hyn yn galluogi staff i gyrchu cymorth lles fel adnoddau ar-lein ar eu liwt eu hunain yn ogystal â chyfeirio at gymorth ychwanegol ac mae'n rhoi darlun cyffredinol i reolwyr o les staff fel bod modd targedu cymorth at feysydd o angen. Mae'r offeryn hefyd wedi'i gyflwyno mewn amrywiol fforymau penaethiaid yn ogystal ag yn ystod diwrnod Arweinwyr Lles ym mis Hydref 2021. Mae cynllun peilot diweddar mewn chwe ysgol wedi darparu strategaethau ar sut i ddefnyddio'r offeryn yma i lywio cynllunio ysgol gyfan i wella lles staff. Mae'r canlyniadau wedi'u rhannu ag arweinwyr lles a phenaethiaid. O ganlyniad i'r gwaith yma, mae iechyd galwedigaethol bellach yn adolygu ac yn cynnig sesiynau byr yn unol â'r angen a nodwyd yn y cynllun peilot a gwybodaeth a gasglwyd gan ddefnyddwyr eraill, er enghraifft patrymau cwsg.
- Y fframwaith ar gyfer Ymgorffori Ymagwedd Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddyliol wedi'i fapio yn erbyn pob maes gwasanaeth ar draws y gyfarwyddiaeth i sicrhau bod pob swyddog yn gwybod beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau i gefnogi gweithredu'r ymagwedd ysgol gyfan at les.
- Mynychodd pob ysgol sesiwn ragarweiniol i dynnu sylw at ddisgwyliadau ysgolion i'r fframwaith. Mae arweinwyr yn gwybod beth yw eu disgwyliadau a'u rolau.
- Mae tua 16% o ysgolion yn RhCT yn ymuno â chynllun peilot y Bwrdd Iechyd ar gyfer hunanwerthuso lles. Mae'r holl ysgolion sy'n cymryd rhan wedi cynllunio'u hymagwedd yn effeithiol - fel y gwelir yn adroddiad RhCT gan yr arweinydd gweithredu. Darparodd yr ALl hefyd becyn cymorth i ysgolion ei ddefnyddio ar gyfer hunanarfarnu. Mae adborth wedi bod yn gadarnhaol.
- Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ar gyfer arweinwyr llesiant mewn ysgolion i gefnogi gweithredu'r fframwaith yma gyda 96 o gynrychiolwyr yn mynychu'n rheolaidd. Dywedodd bron pob un bod y sesiynau'n llawn gwybodaeth a'u bod nhw'n effeithio ar eu prosesau yn yr ysgol. Mae pob sesiwn yn cynnwys diweddariadau o feysydd gwasanaeth gan gynnwys blaenoriaethau sy'n cael eu gyrru gan ddata yn unol â'r fframwaith ar gyfer gwreiddio ymagwedd ysgol gyfan at les emosiynol a meddyliol. Mae gwerthusiadau yn dyfynnu defnyddioldeb y sesiynau, gyda sgôr o 4.7 allan o 5 ar gyfer pob sesiwn.
- Ganlyniad i'r fforymau effeithiol hyn, mae arferion yr ystyrir eu bod yn dda wedi'u rhannu, crëwyd gweithgor gyda 22 o aelodau, pecyn cymorth i gefnogi cynllunio hunan-werthuso a gwella wedi'u cynllunio a'u lledaenu i ysgolion yn ogystal â

phrynu'r offeryn CARI. Mae gwaith peilot ar fodel ymholiadau gwerthfawrogol, y defnydd o PERMA gan dîm AWS i gefnogi achosion agored, dull ysgol gyfan o ddefnyddio CARI a rhannu cynlluniau gweithredu wedi dechrau. Mae'n rhy fuan i werthuso effaith hyd yma.

- Mae dealltwriaeth dda o anghenion disgyblion a theuluoedd sy'n agored i niwed, fel yr adlewyrchir gan gefnogaeth y Cabinet ar gyfer ariannu swyddogion ymgysylltu â theuluoedd. Mae hyn wedi arwain at well cyfathrebu rhwng ysgolion a theuluoedd.

**Blaenoriaeth Strategol 2: *Gwella'r deilliannau ar gyfer pob carfan o ddysgwyr trwy ddefnyddio'r holl setiau data yn effeithiol i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.***

- Yn ystod datblygiad darpariaethau Cam 4 mae ysgolion wedi cael eu hannog i ystyried data ysgol gyfan i lunio meini prawf ymadael a mynediad, ystyried effaith y ddarpariaeth er enghraifft, ar bresenoldeb, nifer y gwaharddiadau a data lles a gasglwyd, yn ogystal ag ystyried y data ar lefel unigol i fonitro effaith ac asesu angen yn ddeinamig.
- Mae datblygiadau wedi'u gwneud i'r defnydd o ddata lles. Yn enwedig trwy ddefnyddio PERMA. Mae'r system wedi'i diweddaru:
  - log newydd gwell mewn a system rhyngwyneb;
  - gellir dal ymarferoldeb allforio llawn i ysgolion olrhain data a data hydredol o broffil PERMA;
  - y gallu i ysgolion greu eu grwpiau eu hunain i olrhain cynnydd mewn perthynas ag ymyriadau penodol (e.e., ymyriadau ELSA);
  - swyddogaeth traciwr hwyliau a fydd yn olrhain hwyliau disgyblion ac yn dal y rhesymau dros y newidiadau hyn;
  - Y Gêm MiSpace sydd bellach ar gael trwy borwr gwe mewn ymateb i faterion gyda iPad / Chromebook.
  - Mae ymgysylltu da gydag ysgolion PERMA 99 yn RhCT wedi cofrestru i ddefnyddio offeryn lles PERMA. Mae'r offeryn wedi'i ddefnyddio'n greadigol mewn llawer o ysgolion i fonitro effaith ymyriadau a dulliau gweithredu lles;
  - Defnyddio'r teclyn fel rhan o brosiect ymchwil i fenter Gatsby yn ysgolion Rhondda Cynon Taf;
  - Ei ddefnydd i werthuso prosiect ymyrraeth ffyddlondeb ELSA.
- Gwerthuso data gan brosiectau a ariennir gan Grant: Mae cyfoedion i gyfoedion Cymorth Emosiynol, menter diploma Ysgol Gwybodus Trawma a phrosiect Perthnasau Iach wedi llywio'r blaenoriaethau presennol o fewn y cynllun hwn er enghraifft:
  - Adnabod ac archwilio perthnasoedd iach ac afiach drwy gefnogi ysgolion i ddatblygu'r meysydd hyn drwy gynllunio prosiectau a datblygu pecynnau offer;
  - Creu lle diogel i fyfyrwyr siarad am deimlad a phrofiadau drwy barhau i archwilio arferion gwybodus trawma o fewn yr awdurdod;
  - Cyflwyno a hyrwyddo help i chwilio am ymddygiad datblygu dull a arweinir gan ddisgyblion o fonitro a chynyddu lles ar draws yr ysgol gyfan drwy barhau i ddatblygu'r defnydd o'r offeryn PERMA; a
  - Hyrwyddo dull ysgol gyfan o weithredu ar les disgyblion, cynwysoldeb a datblygu friendships.by parhau i ddatblygu fforymau lles, gweithio clwstwr a chefnogi gweithredu fframwaith EHW.

**Blaenoriaeth Strategol 3:** ***Adolygu a gwella continwwm o ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl, yn enwedig grwpiau sy'n agored i niwed.***

- Nodi disgyblion sy'n agored i niwed yn gyflym, gan gynnwys darparu gwybodaeth reolaidd i ysgolion am ystod o ddisgyblion sy'n agored i niwed, gan sicrhau eu bod nhw'n cael eu hadnabod yn effeithiol, cymorth llesiant wedi'i dargedu a gwybodaeth am gymorth gwasanaeth i ddisgyblion agored i niwed.
- Mae dealltwriaeth dda o anghenion disgyblion a theuluoedd agored i niwed, fel yr adlewyrchir gan gefnogaeth y Cabinet ar gyfer ariannu darpariaeth Cam 4 pwrpasol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.
- Er gwaethaf y cymhlethdodau sy'n ymwneud â chymariaethau data uniongyrchol yn ymwneud â phresenoldeb yn ystod y pandemig, mae ysgolion Cam 4 wedi nodi rhywfaint o welliant mewn presenoldeb ar gyfer disgyblion sy'n defnyddio eu darpariaethau Cam 4.
- Mae ysgolion wedi gweld gwelliant cyffredinol yn ansawdd ymgysylltiad disgyblion yn ystod gwersi, gyda chynnydd yn nifer y pwyntiau ymddygiad cadarnhaol a ddyfarnwyd i ddisgyblion Cam 4 yn ystod gwersi/gweithgareddau yn yr ysgol.
- Yn ogystal, dywedodd llawer o ysgolion fod darpariaethau Cam 4 yn rhoi mwy o gapasiti iddyn nhw gynnal lefel uchel o gysylltiad â disgyblion Cam 4 a'u rhieni yn ystod cyfnodau pan fydd ysgolion ar gau. Roedd hyn yn sicrhau eu bod nhw'n ymgysylltu'n barhaus â dysgu ac yn galluogi ysgolion i gefnogi unrhyw bryderon sy'n ymwneud â lles.
- O ganlyniad i'r camau gweithredu yma, ynghyd â chymorth lles dwys i wella agweddau at ddysgu a phresenoldeb, mae ysgolion wedi adrodd bod darpariaethau Cam 4 wedi cefnogi ysgolion i gynllunio llwybrau clir a chyrchfannau ôl-16 ar gyfer disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn cyrraedd o leiaf lefel 1 ym mhob cymhwyster maen nhw'n dilyn.
- Cymerwyd camau rhagweithiol i wella darpariaeth dosbarth cymorth dysgu cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol.
  CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF (rctcbc.gov.uk)
  Ymgynghoriad i wella adroddiad darpariaeth WM LSC.pdf (moderngov.co.uk)

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

- Cynhaliwyd ymgynghoriad Dim Ffiniau i gael safbwyntiau aelodau'r gymuned, staff ysgolion a disgyblion ar hiliaeth a chamau i hyrwyddo gwrth hiliaeth mewn ysgolion.
- Mae Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol wedi'i greu a'i symud ymlaen, mae adnoddau cwricwlwm wedi'u datblygu ac mae 11 o ysgolion uwchradd a 18 o ysgolion cynradd wedi mynychu sesiynau hyfforddi sy'n cwmpasu 4 Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles a chynigiwyd 10 sesiwn fyfyriol.
- Dogfen ganllaw Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a baratowyd gan EPS, mynychodd 14 o staff ALl raglen hyfforddi Stonewall.

**ADY**

- The Boxall Profile yn cael ei ddefnyddio i lywio ymyriadau ar gyfer dysgwyr bregus mewn darpariaethau a ddarparwyd hyfforddiant ADY.
- I gefnogi hyn, darparwyd hyfforddiant meithrin yn y DU ar gyfer staff LSC.
- Ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth (ASC) wedi cael y model SCERTS (SC- cyfathrebu cymdeithasol, ER – Rheoleiddio Emosiynol, TS – cefnogaeth drafodol) hyfforddiant i gefnogi dilyniant dysgwyr.

**Blaenoriaeth Strategol 4: *Gweithio gydag ysgolion i liniaru yn erbyn effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE).***

- acEs parhaus a Gostyngiad mewn Hunan Niweidio a Hyfforddiant Hunanladdiad a gyflwynir i ysgolion ddwywaith y tymor, gan y bwrdd diogelu a gwasanaeth EP.
- o Bu buddsoddiad sylweddol mewn Dulliau Gwybodus Trawma mewn ysgolion. Hyd yn hyn mae 28 o gyfranogwyr wedi bod o 27 ysgol (25 cynradd, 2 uwchradd) ar draws 12 clwstwr ac 1 ysgol arbennig. Awgrymodd gwerthuso hyfforddiant welliannau eang gan gynnwys: staff yn cael dealltwriaeth gadarn o ehangder trawma, gan gynnwys trawma cudd; gwell hyder a dealltwriaeth a oedd yn gwella'r gefnogaeth a ddarparwyd; gwell dealltwriaeth o'r angen am ddull ysgol gyfan ei smentio;a gwell cydnabyddiaeth mai busnes pawb oedd o a bod 'pethau bach yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr'.
- Nurture UK training wedi cael ei ddarparu i bob athro yn Nurture, dosbarthiadau SEBD a'r ysgolion Cynradd PRU ac 20.
- Mae darpariaeth clybiau Brecwast yn digwydd ym mhob ysgol gynradd a'r rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd er mwyn annog pob disgybl i fwyta brecwast iach a helpu i hyrwyddo cyrraedd ysgolion yn gynnar.
- o beilot Swyddog Ymgysylltu â'r Teulu (FEO) mewn 6 uwchradd/trwy leoliadau (a weithredwyd yn 2020) a 13 lleoliad cynradd (a weithredwyd Medi 2021) yn seiliedig ar bresenoldeb hanesyddol ac ystadegau amddifadedd (WIMD) i gefnogi'r cymunedau mwyaf agored i niwed a difreintiedig.